# Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i egwyddorion cyffredinol y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

## Sylwadau gan
## Cyfoeth Naturiol Cymru

### 1.0 Cyflwyniad

1.1 Rydym yn croesawu'r cyfle i roi ein sylwadau ac yn cydnabod bod trosglwyddo pwerau codi trethi i Lywodraeth Cymru yn gam sylweddol o ran datganoli yng Nghymru.

1.2 Mae'r egwyddorion a'r broses sy'n gysylltiedig â chasglu a rheoli trethi yn dechnegol iawn, ac maent y tu hwnt i'n harbenigedd presennol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod dylunio a gweithredu Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru yn effeithiol ac yn fwyaf addas i anghenion Cymru. Mae ein hymateb i'r cais hwn am dystiolaeth felly'n canolbwyntio ar egwyddorion cyffredinol casglu a rheoli trethi yng nghyswllt Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru a'r goblygiadau posibl i Gyfoeth Naturiol Cymru.

1.3 Mae gennym gynrychiolaeth ar Fwrdd Prosiect Treth Tirlenwi Cymru a Grŵp Arbenigwyr Technegol Treth Dirlenwi Llywodraeth Cymru. Drwy'r grwpiau hyn, rydym wedi bod yn edrych ar rôl Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cyfleoedd posibl yng nghyswllt Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru.

### 2. Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru

2.1 Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

2.2 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio fel rheoleiddiwr, partner a chynghorydd i fusnesau, sefydliadau anllywodraethol, awdurdodau lleol a chymunedau er mwyn helpu i roi polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ar waith.

2.3 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am reoleiddio'r diwydiant gwastraff ac mae'n brif gynghorydd i Lywodraeth Cymru, yn gynghorydd i ddiwydiant a'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol ehangach, ac yn gyfathrebwr ynghylch materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol. Rydym yn gweithredu ar sail ecosystemau i hyrwyddo rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig sy'n cynnig buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru.

2.4 Hefyd, Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod monitro dynodedig ar gyfer Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 a Rheoliadau Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004.

### 3. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am y ddeddfwriaeth

3.1 Rydym yn cefnogi cyflwyno'r Bil hwn ac yn cydnabod ei fod yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu'r fframwaith cyfreithiol sy'n ofynnol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol.

3.2 Cadarnhaodd y Papur Gwyn ar gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cael ei ystyried yn bartner posibl i weithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru i gyflawni swyddogaethau casglu a rheoli trethi yng nghyswllt y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae ein gallu i ymgymryd â rôl o'r fath yn ofynnol ar allu Awdurdod Cyllid Cymru i ddirprwyo ei swyddogaethau, ac mae Adran 13 o'r Bil yn darparu hynny.

3.3 Treth Dirlenwi'r DU, a gyflwynwyd yn 1996, oedd treth amgylcheddol gyntaf y DU, ac mae'n ffordd allweddol o alluogi'r DU i gyrraedd ei thargedau ar gyfer tirlenwi gwastraff trefol bioddiraddadwy, a bennwyd yn y Gyfarwyddeb Tirlenwi. Treth ar waredu gwastraff ar safleoedd tirlenwi yw treth dirlenwi, ac mae'n cynnig cymhelliant cryf i gynhyrchwyr gwastraff gynhyrchu llai o wastraff, adennill mwy o werth o wastraff, er enghraifft drwy ailgylchu neu gompostio, a defnyddio dulliau mwy ecogyfeillgar o reoli gwastraff. Drwy gynyddu cost tirlenwi, gorfodir technolegau trin gwastraff mwy datblygedig sydd â ffioedd clwydi uwch i fod yn fwy deniadol yn ariannol. Mae effeithiolrwydd y dreth hon o ran newid ymddygiad wedi cael ei ddangos yn y lleihad mewn gwastraff a waredir ar safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Ers 2000, mae swm y gwastraff a waredir ar safleoedd tirlenwi yng Nghymru wedi lleihau o 4.5 miliwn i 2.1 miliwn o dunelli yn 2013.

3.4 Mae'r ffaith bod ardaloedd trefol mawr yn agos ar y ddwy ochr i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn golygu y gellid gwrthdroi'r llif posibl o wastraff yn hawdd, dim ond drwy wneud newidiadau cymharol fach mewn cyfraddau gwahaniaethol. Mae'n bwysig felly bod Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru yn cael ei chyflwyno, a chredwn fod buddiannau sylweddol posibl i'w cael o sicrhau cysondeb parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraethau'r DU a'r Alban.

## 4. Gweithredu'r Bil, a'r goblygiadau ariannol

4.1 Bydd darpariaethau'r Bil, ac yn enwedig ddirprwyo unrhyw swyddogaethau o Awdurdod Cyllid Cymru i Gyfoeth Naturiol Cymru, yn arwain at oblygiad ariannol. Roeddem wedi nodi yn ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y papur gwyn "Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru" nad oeddem yn dymuno cael ein hystyried ar gyfer rôl casglu a rheoli ar hyn o bryd, ond gan gydnabod bod synergedd posibl rhwng ein rôl reoleiddiol bresennol a chyfundrefn y dreth gwarediadau tirlenwi sydd ar ddod, gwnaethom ymrwymo i ystyried cyfleoedd i sicrhau cyfundrefn cydymffurfio a gorfodi fwy effeithiol yng Nghymru, gan weithio ar y sail y byddai disgwyl i unrhyw rôl ychwanegol gael ei hariannu'n llawn.

4.2 Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried y tair elfen ganlynol yng nghyswllt ein rôl bosibl a chasglu a rheoli'r dreth gwarediadau tirlenwi yng Nghymru yn y dyfodol:

- cyfleoedd i rannu gwybodaeth,
- cyfleoedd polisi,
- cyfrifoldebau cydymffurfio a gorfodi

4.3 Ar ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru basio'r Bil hwn, rydym yn rhagweld y bydd trafodaethau mwy dwys yn dechrau â Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod y bydd unrhyw oblygiadau ariannol posibl o fod yn rhan o rôl cydymffurfio a gorfodi yn ddibynnol ar y canlynol:

i. graddfa a chwmpas unrhyw rôl o ran cyflawni swyddogaethau a'r safonau gwasanaeth gofynnol a ddisgwylir,
ii. datblygiad deddfwriaeth a phenderfyniadau cysylltiedig ynghylch polisi yn y dyfodol.

4.4 Rydym ar ddeall y byddai'r rheoliadau sydd ar ddod hefyd yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol pellach. Byddai'r broses hon yn mireinio amcangyfrifon o gostau ac yn rhoi rhagor o sicrwydd i ni ynghylch unrhyw gostau tebygol.

4.5 Croesawn y cyfle i roi tystiolaeth lafar os bydd y Pwyllgor Cyllid yn ein gwahodd i wneud hynny.

### I gael rhagor o wybodaeth

Cysylltwch ag: Isobel Moore, Pennaeth Busnes, Rheoleiddio ac Economeg
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd
Caerdydd, CF24 0TP
[redacted]@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk